

## NADOLIG LLAWEN

BENDITHION YR WYL I HOLL DDARLLENWYR Y GŦLEUAD

# Caru Duw a Chariad Duw!

*Dyma gariad haedda'i gofio  
mewn anfarwol gân ddi-lyth;  
yn y cariad hwn yn nofio  
boed fy nghariad innau byth.*

### Adlewyrchu Cariad Duw

Yn ôl Llyfr Deuteronomium rydym i barchu'r Arglwydd, gan ei garu'n ddiffuant ac yn ddisgwylgar. Dylem adlewyrchu'r cariad hwnnw yn ein ffordd o fyw a'n hagwedd tuag at eraill a'r ffordd rydym yn ymdrin â hwy.

*'Felly dylech chithau hefyd  
ddangos cariad at fewnfudwyr,  
achos pobl o'r tu allan oeddech  
chi yng ngwlad yr Aifft.' (Deut  
10:19)*

Eleni cawsom y cyfle fel Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol a'u partneriaid yn y Philipinas. Cyfle gwych oedd hwn i roi cariad ar waith. Cyfle i roi anrheg Nadolig go iawn fel bod yna gorwynt o gariad ymarferol yn taro'r Philipinas.

Yn yr un modd bu i Dduw roi'r anrheg fwyaf gwerthfawr i ddynoliaeth, y Nadolig cyntaf hwnnw, drwy anfon ei Fab i'n plith. Y Nadolig hwn rhoddwn o'r newydd iddo mewn gwasanaeth, mewn cariad ac mewn ufudd-dod a *'gwasanaethu'r Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid;'* (Deut 10:12)

### Dwi isio gwasanaethu cariad Duw

Bu i Dduw ddefnyddio merch ifanc mewn modd diymhongar i gyhoeddi geni Crist, Gwaredwr a gobaith y ddynoliaeth gyfan. Daeth cyflawniad maint cariad Duw tuag at y byd mewn pecyn bychan, mewn stabl ddiarffordd, heb unrhyw ffanfferau na

rhwysg nag addurniadau llachar. Fe ddaeth y gwir gariad i'r byd ar lefel cyffredin bywyd bob dydd. Defnyddiodd Duw un oedd yn credu'n angerddol, un oedd yn cyd-gerdded ag ef ac yn dilyn ei gyfraith yn ufudd a dirwgnach ac un yr oedd Duw yn ei charu. *"Rwyf ti'n gweld, does dim byd sy'n amhosib i Dduw ei wneud.' A dyma Mair yn dweud, 'Dw i eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth rwyf wedi ei ddweud ddod yn wir.' (Luc 1: 38).*



*Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, ym Methlehem ... Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!' (Luc 2:11)*

Dyna mae hanes gwyrt y Nadolig yn ei ddysgu i ni ac mae'n dangos maint cariad Duw tuag atom a hefyd yn ein hatgoffa fel y mae Duw yn ffyddlon ac yn ymwneud â ni bob amser mewn cariad. Defnyddiodd Duw forwyn gyffredin fel cyfrwng i eni Gwaredwr y byd. Yn yr un cariad mae Duw heddiw hefyd yn ymdrin â'r byd ac yn parhau i ddefnyddio pobl gyffredin fel ni i rannu'r cariad hwnnw yn y byd cymhleth, toredig a thywyll hwn rydan ni yn byw ynddo.

### Cyflawni addewid cariad Duw

Mae hanes geni Crist yn dangos Duw yn cyflawni ei addewid oherwydd maint ei gariad tuag at yd colledig, sy'n crwydro yn ddiarnan a dibwrpas a digyfeiriad mewn gwirionedd. Fe ddaeth ef yn dlawer mwyn i ni fod yn gyfoethog a hynny oherwydd maint ei gariad tuag at y ddynoliaeth gyfan. Mae'r Nadolig yn gyfle nid yn unig i gofio genedigaeth ein Gwaredwr ond hefyd yn fodd i'n sbarduno i rannu'r cariad hwnnw nid ar un diwrnod yn unig ond bob dydd wrth i ni ymateb i rodd werthfawr Duw. Neges o obaith, neges o lawenydd, neges o wir gariad yw neges y Nadolig.

Adlewyrchwn ninnau hynny'r Nadolig hwn:

*Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, ym Methlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!' (Luc 2:11).*

Yn y geni gwyrtiol daeth gobaith, daeth goleuni, daeth newyddion da o lawenydd mawr. Y Nadolig hwn beth am i ninnau rannu'r neges am y cariad diderfyn, difesur, hollgynhwysol sy'n deillio o Grist yr hwn a aned yn Waredwr y byd. Bydded i gariad fod yn sail i'r cyfan a

wnawn ni wrth i ni wasanaethu Crist yn y byd.

*Bore'r greadigaeth  
mewn brwdfrydedd byw,  
canai sêr y bore,  
canai meibion Duw;  
bore'r ymgnawdoliad  
canai'r nef ynghyd  
tra oedd Duw mewn cariad  
yn cofleidio'r byd.*

**Parchg Brian H Jones**  
*Llywydd y Gymanfa Gyffredinol EBC*